
NEWS RELEASE

Dydd Mawrth 18^{fed} Chwefror 2014

Horizon yn croesawu'r ymgynghoriad ar Gyfiawnhad Rheoleiddiol

Croesawodd Pŵer Niwclear Horizon ddechrau ymgynghoriad heddiw ynghylch y cais ar gyfer Cyfiawnhad Rheoleiddiol i Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK ABWR).

Roedd y Gymdeithas Diwydiant Niwclear wedi cyflwyno cais am Gyfiawnhad Rheoleiddiol i UK ABWR i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr a heddiw yw dechrau cyfnod ymgynghori 12 wythnos o hyd, a fydd yn gyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar y cais cyn penderfyniad drafft yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r broses Cyfiawnhad Rheoleiddiol yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer technoleg niwclear newydd ac mae wedi'i dylunio i sicrhau bod manteision UK ABWR i gymdeithas yn drech nag unrhyw niwed radiolegol posibl i iechyd.

Dywedodd Alan Raymant, Prif Swyddog Gweithredu Horizon:

"Mae'r ymgynghoriad ar y cais Cyfiawnhad Rheoleiddiol i'r adweithydd yn garreg filltir bwysig yn ein cynlluniau i ddatblygu gorsafoedd pŵer yn Wylfa ac Oldbury. Rydym yn falch bod pethau'n symud ymlaen yn dda."

Mae lansio'r ymgynghoriad yn dilyn cyfres o ddatblygiadau pwysig yn Horizon. Ym mis Rhagfyr llofnododd y cwmni gytundeb cydweithredu gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi, gyda'r bwriad o arwain at fynediad i Gynllun Gwarant Seilwaith y DU. Roedd Horizon hefyd wedi llofnodi contractau fframwaith strategol pwysig gyda'r cwmnïau peirianeg AMEC, Cavendish Nuclear, Atkins a Jacobs UK. Ym mis Ionawr symudodd UK ABWR i 'Gam 2' y broses Asesiad Dyluniad Generig.

Dywedodd Ken Sato, Rheolwr Cyffredinol, Trwyddedu, Hitachi Europe Ltd. ar ran Hitachi-GE:

“Mae ymgynghoriad heddiw'n dangos ein bod yn dal i symud ymlaen gyda Chyfiawnhad Rheoleiddiol UK ABWR, sydd yn ddim ond un o'r prosesau cadarn y mae'n rhaid i dechnolegau niwclear arfaethedig fynd drwyddynt.

“Yn dilyn y gwaith da rydym eisoes wedi'i wneud eleni ar Asesiad Dyluniad Generig, mae lansiad yr ymgynghoriad yn mynd â ni un cam yn nes at ddefnyddio UK ABWR - gan greu swyddi a chyfleoedd cadwyn cyflenwi, yn ogystal â darparu ynni cynaliadwy fforddiadwy a diogel ar gyfer cartrefi a busnesau'r DU.”

- DIWEDD -

Nodiadau i olygyddion

- Ffurfiwyd Horizon Nuclear Power yn 2009 i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd y cwmni gan Hitachi Ltd, Japan ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cwmni yn datblygu cynlluniau i adeiladu dwy orsaf bŵer niwclear a fydd yn cynhyrchu o leiaf 5,400MW o ynni niwclear, un yn Wylfa ar Ynys Môn a'r llall yn Oldbury-on-Severn yn ne Swydd Gaerloyw
- I gael gwybod rhagor am yr adweithydd UK ABWR, ewch i wefan Hitachi-GE, Ltd. yn www.hitachi-hgne-uk-abwr.co.uk

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Max Wind-Cowie ar 07841816359 neu
Max.windcowie@lodestonecommunications.com

Leon Flexman ar 07989 493320
Leon.flexman@horizonnuclearpower.com